BAVO

# Adroddiad Effaith Blynyddol 2018 - 2019



**Blwyddyn Dathlu'r 21ain**

## Cefnogi'r trydydd sector, cymunedau ac unigolion i gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl

# Rhagair y Prif Weithredwr a’r Cadeirydd

Wrth inni ddathlu 21 mlynedd o wneud gwahaniaeth ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r Bwrdd a minnau'n haeddiannol falch o’r hyn y mae’r sefydliad wedi ei gyflawni – rydym wedi gorfod addasu, newid a bod yn ymatebol o ran symud gyda’r oes ac rydym wedi dod ymhell ers y dyddiau cynnar hynny!

Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont (BAVO) a'r Trydydd Sector bellach yn bartneriaid strategol allweddol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn y rhanbarth. Rydym ni wedi gweithio'n galed i sicrhau ein bod mewn sefyllfa i gyfrannu at nifer o feysydd pwysig o ran datblygiadau, ymgyrchoedd, mentrau arloesol ac ymchwil. Rydym hefyd wedi ceisio sicrhau bod y sector yn cymryd rhan ac yn ymgysylltu fel bod cyfle i aelodau a defnyddwyr eu gwasanaethau gydweithio a dylanwadu ar newid, a chael eu cydnabod fel partneriaid a darparwyr gwasanaeth gwerthfawr a chredadwy.

O ganlyniad, roedd 2018/19 yn flwyddyn lwyddiannus a phrysur arall i'r sefydliad. Unwaith eto, roedd galw mawr am wasanaethau craidd BAVO o ganlyniad i baratoi ar gyfer newid rhanbarthol yn ogystal â chynyddu rheoliadau megis GDPR, gan olygu bod angen cefnogaeth ar y sector. Serch hynny, fe wnaethom barhau i gyflwyno rhaglen hyfforddi lawn, dosbarthu grantiau bach, cynnal cynadleddau lleol a rhanbarthol ar y cyd, lansio'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol rhanbarthol a'r grŵp cyd-gynhyrchu, a hwyluso cydweithrediad rhwng llawer o'n haelodau. Fe wnaethom ddathlu gweithrediadau gwirfoddol drwy weithgareddau'r Wythnos i Wirfoddolwyr a'n Gwobrau Blynyddol i Wirfoddolwyr gan gyfrannu at feysydd gwaith pwysig sy’n ymwneud â chyfranogi, ymgynghori ac ymgysylltu, mynd i'r afael â thlodi, lles ac iechyd a gofal cymdeithasol. Hefyd, fe wnaethom ni barhau â'r cynllun Cymdeithion Cymunedol lleol a mentora Byrddau Ymddiriedolwyr drwy ein prosiect Cyswllt. Gwnaethom hyn i gyd mewn cyfnod o gyni cenedlaethol, a oedd yn golygu bod ein hincwm wedi lleihau yn gyflym wrth i sawl prosiect ddod i ben. Daeth rhai ohonynt yn hunangynhaliol, ond nid oedd gan eraill, er gwaethaf eu heffaith gadarnhaol, unrhyw ddewis ar gyfer bod yn rhan o’r brif ffrwd oherwydd diffyg cyllid lleol. Mae pob partner ar draws sectorau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn wynebu'r un heriau gwleidyddol ac economaidd ac mae canlyniadau hyn yn golygu ein bod wedi gweld ein cymunedau yn gwahanu, a’n haelod-sefydliadau yn adrodd eu bod nhw’n gweithio o dan bwysau cynyddol a hynny gydag unigolion yr oedd eu hanghenion yn cynyddu neu'n mynd yn fwy cymhleth.

Yn yr adroddiad hwn, fe gewch ragor o fanylion am ein meysydd gwaith allweddol gan gynnwys ein dangosyddion perfformiad, ein heffaith a'n canlyniadau. Mae ein holl weithgareddau'n cyd-fynd yn strategol â'n gweledigaeth, ein cenhadaeth, ein hamcanion a'n huchelgais ar gyfer y sector. Rydym yma i gefnogi Trydydd Sector cadarn, dylanwadol, cynaliadwy, ac sy’n tyfu, ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae popeth a wnawn yn dod o dan ein pedair colofn graidd: Llywodraethu, Gwirfoddoli, Dylanwadu ac Ymgysylltu, a Chynaliadwyedd.

Fel ein haelodau, mae BAVO bob amser yn chwilio am ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau. Rydym yn parhau i ddarparu cymorth wyneb yn wyneb, ond rydym hefyd wedi gwella ein gwasanaethau digidol drwy Cefnogi Trydydd Sector Cymru, sef partneriaeth seilwaith rhwng CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru.

Rydym yn falch o fod wedi cyfrannu at sector gwirfoddol amrywiol sy'n gwella iechyd a lles, yn lleihau anghydraddoldeb ac yn ysbrydoli pobl eraill. Nid oes unrhyw amheuaeth bod y Trydydd Sector yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd miloedd lawer o drigolion a’i fod o fudd i'r boblogaeth gyfan.

Diolchwn i'n Hymddiriedolwyr am eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad ac am y ffordd y maen nhw wedi eu defnyddio yn ddiwyd i lunio a monitro cyfeiriad strategol BAVO. Mae’n rhaid diolch hefyd i wirfoddolwyr ein prosiect, ein cyfeillion, ein mentoriaid a chynrychiolwyr y Trydydd Sector sy'n rhoi o'u hamser a'u profiad i'r achos ac, wrth gwrs, ein staff am eu hymroddiad a'u harbenigedd, ac am y ffordd y mae pob un ohonyn nhw yn gwneud BAVO yn lle ysbrydoledig i weithio ynddo.



**Heidi Bennett**
**MBA, MCIPD, FInstLM**
**Prif Weithredwr**



**Mark Davies**
**Cadeirydd**

## Ymddiriedolwyr 2018/19

| | |
|---|---|
| Steve Curry | |
| Mark Davies (Cadeirydd) | Bad Bikes |
| Marged Griffiths | Mudiad Meithrin |
| Les Jones (Is-gadeirydd) | The Court House, Maesteg (hyd at fis Tachwedd 2018) |
| Mari Major MBE | Ymddiriedolaeth Elusennol Morgannwg Endeavour |
| Clive Owen | Gofal Galar Cruse Morgannwg |
| Y Cynghorydd Charles Smith | Aelod o’r Cabinet, CBS Pen-y-bont ar Ogwr (Cyfetholedig) a Chanolfan Gymunedol Westward (hyd at fis Tachwedd 2018) |
| Y Cynghorydd Richard Young | Aelod o’r Cabinet cymunedau CBS Pen-y-bont ar Ogwr a Mental Health Matters Wales (o fis Rhagfyr 2018) |

## Datganiad cenhadaeth

Ein diben yw cefnogi, annog a hyrwyddo datblygiad sector gwirfoddol a chymunedol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n effeithiol ac effeithlon, yn wybodus a dylanwadol ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl.

## Gwerthoedd

Mae gwaith BAVO yn cael ei lywio gan set o werthoedd sy'n helpu i bennu blaenoriaethau a'r dull cyffredinol o weithio. Rydym yn cydnabod bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn amrywiol a bod gan bawb yr hawl i gyfle cyfartal ac i gyfrannu at eu cymuned.

## Y canlyniadau rydym am eu cyflawni yw:

- Sefydliadau trydydd sector cryfach drwy ddarparu cymorth, cyngor a hyfforddiant a chyfleoedd dysgu, datblygu sgiliau a meithrin gallu;
- Cymunedau gweithgar ac amrywiol drwy gefnogi a hyrwyddo gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithgar, cyfle cyfartal ac amrywiaeth;
- Trydydd sector hyderus a dylanwadol, drwy eiriol dros gynnwys y sector wrth lunio polisïau, strategaethau, cyd-gynhyrchu atebion i faterion lleol ac ymgorffori'r sector mewn prosesau cynllunio a chomisiynu lleol;
- Rhoi mwy o lais i ddinasyddion a chymunedau drwy alluogi defnyddwyr gwasanaethau/gofalwyr, grwpiau cymunedol a dinasyddion i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu lleol sy'n effeithio arnyn nhw ac ar eu bywydau;
- Trydydd sector cynaliadwy o ganlyniad i frocera partneriaethau cryf, gan gydlynu a chysylltu cyfleoedd ar gyfer cydweithio.



# Gwirfoddoli

**CANLYNIAD:** Mae mwy o bobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn elwa ar wirfoddolwyr a gwirfoddoli, ac yn ymwneud â hyn.

Mae gwirfoddolwyr yn darparu gwasanaethau yng nghalon ein cymunedau lleol. Maen nhw'n ei gwneud yn haws i bobl gael y cymorth sydd ei angen arnynt ac maen nhw hefyd yn gwella lles pobl eraill. Mae gwirfoddolwyr yn helpu cymunedau i fynd i'r afael â'u hanghenion ac i fod yn fwy cynaliadwy a gwydn.

Fe wnaethom roi cymorth i sefydliadau er mwyn datblygu arfer da wrth recriwtio, hyfforddi a chadw gwirfoddolwyr i wella ansawdd ac amrywiaeth cyfleoedd gwirfoddoli lleol.

Fe wnaethom gynnal y Fforwm Rheolwyr Gwirfoddol drwy gydol y flwyddyn, sy'n dod â sefydliadau at ei gilydd i ddarparu cymorth gan gymheiriaid, diweddariadau cyfreithiol, gwybodaeth am wirfoddoli ac arferion gwaith diogel ac i ddysgu a rhannu ffyrdd o wella ansawdd ac amrywiaeth y cyfleoedd i wirfoddolwyr lleol.

Buom yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau i ddatblygu a chynyddu cyfleoedd i wirfoddolwyr, fe wnaethom gyfarfod ag unigolion ar sail un-i-un i drafod beth yr hoffent ei elwa o wirfoddoli; gan baru eu hanghenion, eu dyheadau a'u sgiliau unigol â'r sefydliadau oedd eu hangen.

Fel aelod o Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW), fe wnaethom lansio llwyfan gwirfoddoli digidol rhad ac am ddim i wirfoddolwyr er mwyn dod o hyd i gyfleoedd ac er mwyn i sefydliadau gyhoeddi swyddi gwag gwirfoddol. Mae'r system newydd wedi helpu i recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr, cofnodi oriau gwirfoddolwyr, cynllunio rotâu a digwyddiadau, cofnodi hyfforddiant a phrofiad a llunio adroddiadau, ewch i **bridgend.volunteering-wales.net**

## Beth wnaethon ni ei gyflawni...?

Ymateb i **687** o ymholiadau gan wirfoddolwyr.

Cynnal **282** o gyfweliadau gwirfoddoli.

Lleoli **204** o wirfoddolwyr.

Cynorthwyo **66** o sefydliadau gyda materion yn ymwneud ag arfer da mewn gwirfoddoli.

Mynychodd **17** o sefydliadau sioe deithiol Gwirfoddoli yng Nghymru.

Mynychodd **28** o sefydliadau weithgareddau'r Wythnos Gwirfoddolwyr.

Wedi helpu dros **100** o sefydliadau gwirfoddol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i amlygu eu cyfleoedd gwirfoddoli Gwefan gwirfoddolwyr.

Mae ein Hwythnos Gwirfoddolwyr a'n Gwobrau Cyflawniad Gwirfoddolwyr blynyddol yn cydnabod ymrwymiad ac effaith gadarnhaol gwirfoddoli. Drwy ymweld â digwyddiadau a gweithgareddau gan gynnwys diwrnodau gwybodaeth, ffeiriau swyddi a sefydliadau, fe wnaethom geisio denu pobl o bob oed a gallu drwy hyrwyddo gwirfoddoli fel ffordd o wella iechyd a lles, lleihau unigedd ac unigrwydd, gwella hyder a hunan-barch a chynyddu ac effeithio'n gadarnhaol ar sgiliau sylfaenol, rhagolygon prifysgol neu ragolygon swyddi.

## Beth oedd ein heffaith?

### Stori Sian...

"Ymwelais â BAVO ac fe wnaethant egluro'r amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael, faint o oriau a hyfforddiant y byddai angen i mi ei wneud er mwyn gwirfoddoli. Trafododd y Ganolfan Wirfoddoli amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli ac fe wnaethant gyfeirio fy manylion at brosiectau a oedd yn addas, gan baru fy sgiliau, argaeledd a diddordebau. Mae'r ganolfan wastad wedi bod ar gael i gynnig cymorth, arweiniad a help os oeddwn i ei angen.

"Mae gwirfoddoli wedi rhoi pwrpas i mi a strwythur ychwanegol i fy wythnos. Rwyf hefyd wedi cwrdd â phobl newydd. Mae gwirfoddoli yn cymryd talp da o'm hwythnos drosodd sydd wedi bod yn fuddiol iawn i mi. Gan fy mod yn gwirfoddoli gyda thipyn o brosiectau, rwyf wedi mynychu hyfforddiant ar gyfer pob rôl gwirfoddolwr, sydd wedi rhoi gwell dealltwriaeth i mi.

"Rwyf wedi ymwneud â chyfeillio a mentora. Rwy'n teimlo bod fy ymglymiad â'r ddau brosiect a'r unigolion rwy'n eu cefnogi wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w lles ac wedi lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd.

"Mae'r mentora gwirfoddolwyr gyda'r bobl ifanc wedi rhoi cipolwg i mi ar weithio gyda phobl ifanc a'u hanghenion. Mae Gwirfoddoli gyda Chymdeithion Cymunedol wedi fy ngalluogi i ddeall anghenion pobl hŷn.

"Mae gwirfoddoli wedi rhoi mwy o hyder i mi ac rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi."

## Gwirfoddolwyr ieuenctid (14 – 25)

Fe wnaethom amlygu a hyrwyddo'r rôl bwysig mae pobl ifanc yn ei chwarae o ran cefnogi sefydliadau'r trydydd sector drwy eu hysbysu am yr ystod eang o gyfleoedd gwirfoddoli buddiol a heriol sydd ar gael ar draws yr ardal. Fe wnaethom godi proffil gweithgareddau gwirfoddoli i bobl ifanc drwy ddiwrnodau gwybodaeth, ymweliadau ag ysgolion a cholegau, gwefannau Gwirfoddoli Cymru a BAVO a chyfryngau cymdeithasol.

Hefyd, fe wnaethom gefnogi a hwyluso Panel Dan Arweiniad Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr, yn cynnwys pobl ifanc yn gyfan gwbl, ac oedd yn eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau rheoli grantiau ac ymgymryd â'r broses o wneud penderfyniadau i ddyfarnu cyllid i brosiectau lleol dan arweiniad pobl ifanc.

Rhoddwyd **£7,298.79** i 10 prosiect oedd wedi cael eu llunio a'u datblygu gan bobl ifanc, gan eu galluogi i chwarae rhan fwy gweithredol yn eu cymuned leol.

### Beth wnaethon ni ei gyflawni...?

Mynychodd **120** o bobl ifanc gyfweliadau Canolfan Gwirfoddoli BAVO.

Lleolwyd **72** o bobl ifanc fel gwirfoddolwyr.

### Beth oedd ein heffaith?

## Stori Sheldon...

"Rwy'n rhan o'r panel sy'n dyrannu cyllid i wahanol elusennau a sefydliadau er mwyn eu helpu i gyflawni eu cynlluniau i helpu a chynnwys pobl ifanc.

"Dechreuais gymryd rhan pan ddaeth BAVO i'r coleg i hysbysebu gwirfoddoli a'r panel. Penderfynais gymryd rhan oherwydd ei fod yn ymddangos yn ffordd dda o helpu pobl eraill ac roedd hefyd yn clymu'n dwt wrth fy nghwrs yn y coleg (cyfrifeg).

"Mae'r Ganolfan Wirfoddoli wedi fy helpu i roi hwb i lawer o'm sgiliau craidd fel meddwl yn feirniadol, cyfathrebu, gwaith tîm a sgiliau empathi.

"Mae gwirfoddoli yn bendant wedi rhoi hwb i fy ngallu i weithio mewn tîm a chyfaddawdu. Mae'n sicr wedi newid y ffordd rwy'n ystyried gwirfoddoli a gwahanol grwpiau elusennol o'm cwmpas.

"Mae fy ngwaith gwirfoddol wedi helpu eraill yn bendant, gan fod y cyllid a ddyrannwyd gennym wedi rhoi llawer o gyfleoedd i bobl ifanc ddysgu sgiliau newydd, cymryd rhan a chwrdd â phobl newydd.

"Mae gwirfoddoli wedi rhoi hwb i fy hyder gan fod rhaid i mi leisio fy marn hyd yn oed os nad yw pobl eraill yn cytuno â mi. Rwy'n credu fod gallu rhoi gwirfoddoli ar fy CV yn bendant wedi fy helpu i gael fy swydd newydd ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i wirfoddoli gyda'r panel ariannu. Mae gwirfoddoli'n golygu rhoi awr o'ch diwrnod i newid bywyd rhywun."



# Ddinasyddion gweithgar sy'n cymryd rhan

## Focus Forward

Roedd y Prosiect Focus Forward yn brosiect peilot 'Cymunedau am Waith' ar y cyd rhwng BAVO a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr rhwng mis Hydref 2018 a mis Mawrth 2019. Roedd yn darparu cefnogaeth i wella lles, darganfod gwirfoddoli a hyfforddiant sgiliau, tra'n darparu cefnogaeth un i un i bobl oedd angen datblygiad personol, hyder a phrofiad gwaith trwy rolau gwirfoddoli.

Cafodd cyfranogwyr y prosiect hyfforddiant rhad ac am ddim i helpu i gyflawni eu rôl fel gwirfoddolwyr, gan gynnwys Cymorth Cyntaf Sylfaenol; Diogelu Plant ac Oedolion a Chyfeillion Dementia.

Fe wnaethom helpu pobl i roi'r pethau yr oedd eu hangen arnynt ar waith er mwyn gwella eu lles a'u hyder ac fe wnaethom eu cyfeirio at grwpiau cymorth yn yr ardal i'w helpu i barhau â'u taith gyflogaeth.




### Beth oedd ein heffaith?

### Stori Megan...

Roedd Megan yn awyddus i ddatblygu sgiliau newydd a diweddaru ei sgiliau cyfrifiadurol a gwelodd wirfoddoli fel cyfle da i gwrdd â phobl newydd a diweddaru ei CV. Mae hi bellach yn gwirfoddoli yng Nghyngor ar Bopeth Pen-y-bont.

"Cefais fy nghyfeirio gan y Ganolfan Wirfoddoli i ychydig o gyfleoedd gwirfoddoli, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth. Roedd hi'n ymddangos mai'r cyfle hwn oedd yr opsiwn gorau ac roedd yn cynnig hyfforddiant i mi i gyflawni rôl ymgynghorydd gan gynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb i gefnogi unigolion.

"Dydw i ddim yn hanu o Ben-y-bont ar Ogwr yn wreiddiol ac roeddwn yn gobeithio cael gwell dealltwriaeth o'r gymuned ac anghenion cymorth dyddiol unigolion. Mae Cyngor ar Bopeth wedi rhoi cipolwg i mi ar hyn. Mae hefyd wedi fy helpu i ymgartrefu mewn ardal newydd a chwrdd â phobl newydd.

"Mae gwirfoddoli wedi bod o gymorth mawr i'm datblygiad personol a'm hyder, a bydd yr hyfforddiant yr wyf wedi ei fynychu yn fuddiol i mi gyda'm ceisiadau am swyddi yn y dyfodol."

### Beth wnaethon ni ei gyflawni mewn chwe mis...?

Mynychodd **33** o bobl gyfarfodydd un i un i drafod gwirfoddoli, hyfforddiant ac ati.

Mynychodd **12** o bobl sesiynau ymsefydlu neu hyfforddiant ar gyfer eu rôl fel gwirfoddolwyr.

**27** o bobl wedi cael eu cyfeirio i brosiectau ar gyfer gwirfoddoli.

Dechreuodd **14** wirfoddoli.

Cwblhaodd **8** o bobl y sesiwn ymwybyddiaeth gwirfoddolwyr.

Daeth **4** o bobl oddi ar y prosiect Focus Forward o ganlyniad i sicrhau cyflogaeth.

# Trydydd sector llewyrchus a chynaliadwy

**CANLYNIAD:**
Mae mudiadau trydydd sector ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gynaliadwy, yn gallu cynhyrchu incwm a gwneud defnydd gwell o adnoddau i ddarparu gwasanaethau lleol a gwella lles pobl.

Roedd ein cymorthfeydd ariannu yn cynnig cyfle i grwpiau lleol gyfarfod yn uniongyrchol â chyllidwyr mawr ar sail un i un. Cynhaliwyd **7** o gymorthfeydd ariannu a mynychodd **62** o aelod sefydliadau o bob rhan o'r fwrdeistref sirol. Roedd y Loteri Genedlaethol (cronfeydd Arian i Bawb, Pawb a'i Le a'r Gronfa Dreftadaeth), Coalfields Regeneration Trust a Grow Wil (menter allgymorth Genedlaethol Gerddi Botaneg Brenhinol Kew), i gyd yn bresennol i gynnig arweiniad i ddarpar ymgeiswyr.

Fe wnaeth ein gwasanaethau cynghori helpu aelodau lafurio drwy gymhlethdodau ceisiadau am gyllid yn hawdd ac yn effeithlon drwy rannu ein harbenigedd fel codwyr arian, rheolwyr cronfeydd ac aseswyr.

Fel aelodau o'r TSSW, lansiwyd porth ariannu newydd i helpu sefydliadau'r trydydd sector i ddod o hyd i arian. Mae **Funding.Cymru** yn galluogi sefydliadau gwirfoddol i hunan-chwilio am gyfleoedd cyllid grant a benthyca o ffynonellau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'n rhad ac am ddim i'w ddefnyddio gyda phroses gofrestru syml, ond mae BAVO yn darparu cymorth penodol i helpu aelodau i ddefnyddio'r porth er mwyn cael y cyfle gorau i sicrhau cyllid.

## Beth oedd ein heffaith?

### Stori Neuadd Goffa Williams...



Mae Neuadd Goffa Williams yn Llangrallo yn 100 mlwydd oed ac mae angen atgyweirio'r to neu gae to newydd ac mae lleithder yn y waliau a'r llawr. Manteisiodd yr ymddiriedolwyr ar y cyfle i gwrdd â staff y Loteri Genedlaethol wyneb yn wyneb, pan oeddent yn bresennol yn ein cymhorthfa cyllid BAVO ym mis Mai 2018. Arweiniodd hyn at ddyfarnu £45,000 i ddechrau camau cychwynnol prosiect adnewyddu adeilad cyfan i arbed ased cymunedol yr oedd ei angen yn fawr.

Meddai Mabyn Thomas, Clerc i Ymddiriedolwyr Neuadd Goffa Williams: "Hwylusodd BAVO y cyfarfod cychwynnol rhwng rhai o'r Ymddiriedolwyr a'r Loteri Genedlaethol ac fe wnaeth hyn egluro'r hyn yr oedd yn rhaid i ni ei wneud i gyflawni meini prawf y Loteri a'n gosod ni ar y llwybr cywir i gael y £45,000.

"Bydd yr arian hwn yn galluogi'r Ymddiriedolwyr i wneud arolygon, chwiliadau, cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus pellach, creu cynlluniau pensaernïol a chwblhau'r costau fel y gallwn wneud cais yn 2020 am gyllid pellach ar gyfer gwaith adeiladu."

## Beth wnaethon ni ei gyflawni...?

Ymateb i **2,435** o ymholiadau (gan gynnwys **714** achos o gymorth wedi'i deilwra).

Cynorthwyo **120** achos o gymorth a chyngor wedi'i deilwra i ymddiriedolwyr.

Darparu **18** o bapurau briffio, e-fwletinau a chylchlythyrau.

Cyflawni **£1.2M** o fewnfuddsoddiad newydd ar gyfer gweithgarwch, cyfleusterau ac achosion lleol drwy ein gwasanaeth cynghori ar gyllid.

Dosbarthu **£20,000** mewn grantiau bach ar gyfer grwpiau lleol.



# Trydydd sector llewyrchus a chynaliadwy

Gan ganolbwyntio ar lywodraethu da, fe wnaethom roi cymorth a chyngor parhaus i grwpiau ac unigolion ar wahanol gamau yn eu datblygiad gan gynnwys drafftio a diwygio dogfennau llywodraethu, cofrestru cwmnïau ac elusennau a datblygu polisïau a gweithdrefnau. Fe wnaethom helpu ein haelodau i nodi'r strwythur cyfreithiol mwyaf priodol megis grwpiau anghorfforedig, elusennau cofrestredig, Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASCs), Sefydliadau Corfforedig Elusennol (CIOs), Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CICs), Ymddiriedolaethau Datblygu, Cwmnïau cydweithredol a sefydliadau dielw cyfyngedig drwy warant.

Eisoes yn darparu arweiniad i'n haelodau ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol, fe wnaethon ni drefnu sesiwn wybodaeth am Gyfranddaliadau Cymunedol mewn partneriaeth â Chymdeithas Gydweithredol Cymru wedi'i hanelu at glybiau chwaraeon a chanolfannau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Fe wnaeth grwpiau ganfod fod Cynlluniau Cyfranddaliadau cymunedol yn un ffordd o gynilo a/neu drawsnewid cyfleusterau'r gymuned leol; codi arian i ariannu prosiect; ariannu clybiau chwaraeon newydd ac ariannu datblygiadau ynni adnewyddadwy.

Mae ein gwasanaeth datblygu yn cefnogi sefydliadau ac ymddiriedolwyr i fod yn ddiogel ac i gydymffurfio ac mae'n helpu gyda materion ac anghenion pob dydd. Mae ein gwasanaeth ymgynghori yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol wedi'i deilwra i aelodau pan na fydd pethau'n mynd yn ôl y disgwyl, gan gynnwys cyfryngu, adnoddau dynol, cymorth ymarferol gyda chadw llyfrau a ffeilio cyfrifon, archwilio camgymeriadau ariannol neu afreoleidd-dra neu reoli prosesau (gwrando ar gwynion, ymchwiliadau, achosion disgyblu ac ati).

### Beth oedd ein heffaith?

## Stori Tîm Achub Mynydd Gorllewin y Bannau...



Mae eu hardal yn un o'r ardaloedd mwyaf a gwmpesir gan un Tîm Achub Mynydd yn y DU. Yn ystod blwyddyn arferol, maen nhw'n ymateb i rhwng 50 a 60 o alwadau ac maen nhw ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

Eisoes yn elusen gofrestredig, roedd y Tîm Achub am drosi i Gymdeithas Elusennol Corfforedig. Drwy gyfres o gyfarfodydd yn eu Pencadlys ym Mryncethin, cefnogodd staff BAVO yr ymddiriedolwyr drwy'r broses o fabwysiadu eu cyfansoddiad newydd a'r broses o wneud cais am gofrestriad newydd. Rhoddodd cymorth BAVO haen ychwanegol o amddiffyniad i ymddiriedolwyr rhag atebolrwydd ac mae wedi gwasanaethu i'w helpu i gadw eu trefn lywodraethu a'u cyfansoddiad yn gyfredol fel y gallant fwrw ymlaen â'r busnes o achub bywydau!

### Beth oedd ein heffaith?

## Stori Calon Y Cwm...

Wedi'i sefydlu yn Upper Garw, mae'r Ymddiriedolwyr yn creu cysylltiadau a phartneriaethau i gyflawni cenhadaeth y grŵp gyda thema gyffredin o wella lles, cymunedau a'r amgylchedd yng Nghwm Garw.

Drwy amrywiol gyfarfodydd a thrafodaethau gydag Ymddiriedolwyr, cefnogodd BAVO Calon Y Cwm i gofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol Sylfaenol (CIO). Drwy fynd drwy'r broses gofrestru maen nhw wedi llwyddo i gydymffurfio â chyfraith elusennau sydd wedi helpu'r grŵp i gael cyllid i ddod yn weithgar ac yn llwyddiannus iawn wrth ddatblygu gweithgareddau a phrosiectau lleol.

Eu cynllun mawr cyntaf oedd Clwb Ieuenctid Pontycymer wedi'i leoli yng Nghanolfan Hamdden Halo Pontycymer, sydd â bron i 150 o bobl ifanc yn aelodau cofrestredig. Mae'r elusen yn cynnal rhaglen haf lawn yn llwyddiannus ac yn gwahodd grwpiau ac unigolion i rannu eu llwyddiant i helpu Calon Y Cwm i dyfu ac i wella bywydau llawer o bobl ifanc.

# Trydydd sector llewyrchus a chynaliadwy

**CANLYNIAD:** Mae sefydliadau'r trydydd sector ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gymwys, yn hyderus ac yn gadarn wrth redeg eu sefydliad, er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau priodol i ddiwallu anghenion lleol.

## Hyfforddiant

Mae ein hyfforddiant yn cefnogi datblygiad personol a phroffesiynol Ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr. Roedd ein rhaglen hyfforddi yn ymdrin â phynciau'n cynnwys diogelu, Hyfforddiant Sgiliau Ymyriadau Hunanladdiad Cymhwysol, cyfrifyddu sylfaenol a rolau a chyfrifoldebau Ymddiriedolwyr. Roedden ni hefyd yn falch o ddarparu am y tro cyntaf y 'Cyflwyniad Sylfaenol i Recriwtio, Dethol a Rheoli Gwirfoddolwyr'.

Cafodd ein sesiynau 'Cyfeillion Dementia', a gynhaliwyd mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Alzheimer, eu darparu i newid canfyddiadau pobl o ddementia a thrawsnewid y ffordd mae pobl yn meddwl, gweithredu a siarad am y cyflwr. Cafodd gwirfoddolwyr eu recriwtio i fod yn 'Hyrwyddwyr dementia' i barhau i gyflwyno sesiynau yn eu cylchoedd cymdeithasol a'u cymuned eu hunain er mwyn sicrhau'r budd a'r cynaliadwyedd mwyaf posibl.

Mae Rhwydwaith Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr yn dwyn ynghyd sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio gyda phobl ifanc ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Gan weithio mewn partneriaeth, cefnogodd BAVO anghenion hyfforddi'r sector cymorth ieuenctid drwy gynnig cyrsiau yn cwmpasu'r cyrsiau Rhaglen Sgiliau a Mentora, Cyflwyniad i Waith Ieuenctid a Datblygu Dwyieithrwydd yn y Gweithle.

Hyfforddwyd **58** o bobl yn ein Hyfforddiant Sgiliau Ymyriadau Hunanladdiad Cymhwysol (ASIST). Rydym yn cael ein hystyried fel un o'r sefydliadau hyfforddi ASIST blaenllaw yng Nghymru, gan ragori ar bawb arall o ran canlyniadau cyflawni a niferoedd sydd wedi'u hyfforddi.

Yn cael ei gyflwyno i drigolion, gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n gweithio yn y trydydd sector, y sector preifat neu'r sector cyhoeddus; mae ein sesiynau 'cymorth cyntaf' hunanladdiad dau ddiwrnod yn cael eu darparu fel rhan o'n hymrwymiad i'r strategaeth a'r cynllun gweithredu ar gyfer atal hunanladdiad a hunan-niwed yn y sir. Gyda'r nod o greu cymunedau mwy diogel rhag hunanladdiad trwy gynyddu sgiliau a gwydnwch pobl, mae ASIST yn esbonio sut i ymyrryd ac achub bywyd rhag hunanladdiad.

### Beth wnaethon ni ei gyflawni…?

Darparwyd **25** o gyrsiau BAVO.

Enillodd **291** o bobl sgiliau newydd drwy hyfforddiant BAVO.

Fe wnaeth **100%** o fynychwyr nodi fod cyrsiau BAVO yn dda iawn neu'n rhagorol.



# Trydydd sector hyddysg a dylanwadol

**CANLYNIAD:** Mae gan fwy o sefydliadau trydydd sector lais a gallant gyfrannu'n hyderus ac yn effeithiol at ddatblygiadau polisi, cynllunio a gwasanaeth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau lleol yn diwallu anghenion defnyddwyr.

Gyda'r broses o uno Byrddau Iechyd a gyhoeddwyd yn 2018 ar fin dechrau, roeddem yn ymwybodol y byddai gan ein haelodau bryderon ynghylch sut y byddai'r uno yn effeithio ar eu gwasanaethau. O ganlyniad, arweiniodd BAVO ar yr ymateb rhanbarthol a gweithio ar y cyd gyda chynghorau gwirfoddol sirol cyfagos ar ddigwyddiadau ymgynghori fel y gellid mynd i'r afael yn uniongyrchol â phryderon grwpiau a sefydliadau'r trydydd sector.

Fe wnaethom fynychu a chynnig safbwynt y trydydd sector mewn nifer o grwpiau partneriaeth Gwasanaethau Cyhoeddus a hwyluso fforymau'r trydydd sector. Rydym yn cydnabod mai ein haelodau sydd yn y sefyllfa orau i gynrychioli barn darparwyr y trydydd sector, felly, fe wnaethom gefnogi cynrychiolwyr y trydydd sector i gael mewnbwn uniongyrchol i bartneriaethau strategol lle bynnag y bo modd.

Yn ogystal â hyn, roedd yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wneud £35 miliwn yn rhagor o doriadau i'w gyllideb erbyn 2023. Fe wnaethant ofyn i'r preswylwyr gwblhau eu hymgynghoriad 'Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr' i roi eu barn ar eu cynigion. Rydym bob amser yn ymdrechu i gefnogi, grymuso a helpu ein trydydd sector lleol i chwarae rhan fwy gweithredol mewn prosesau ymgynghori â'r gymuned, gan fod toriadau o'r fath yn effeithio ar y sector a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.

Mewn partneriaeth â thîm ymgysylltu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, fe wnaethom drefnu digwyddiad trydydd sector 'Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr' lle y gallai ein haelodau amlygu eu materion i arweinydd y Cyngor.

Fe wnaethom hwyluso nifer o fforymau a rhwydweithiau thematig lleol y trydydd sector. Roedd y rhain yn dod â darparwyr gwasanaethau ynghyd i'w cysylltu â strategaethau a pholisi a chefnogi'r llif gwybodaeth i bartneriaethau strategol, fel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae gan Gadeiryddion fforymau'r trydydd sector fandad i fod yn gynrychiolydd ar gyfer eu maes gwaith ar wahanol fyrddau partneriaeth. Maen nhw'n ddolen gyswllt hanfodol i sicrhau bod aelodau eu fforwm yn cymryd rhan ac yn ymgysylltu yn eu prosesau gwneud penderfyniadau yn lleol ac yn rhanbarthol.

Roedd ein fforymau'n cynnwys rheolwyr gwirfoddol, darparwyr iechyd meddwl DAMHSN, Rhwydwaith Cymorth Ieuenctid, Gofal Cymdeithasol Iechyd Pen-y-bont, Fforwm Gwerth Cymdeithasol, Panel Dinasyddion Bae'r Gorllewin,Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Bae'r Gorllewin, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Trydydd Sector, Y Bartneriaeth Gofalwyr a'r Rhwydwaith Atal a Lles.



## Iechyd, gofal cymdeithasol a lles

Roedd ein digwyddiad **Rhwydwaith Atal a Lles** a drefnwyd mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod bod atal yn fusnes i bawb. Mynychodd bron 100 o gynrychiolwyr o bob sector i gael gwybod am rai o'r prosiectau arloesol mae sefydliadau yn ymwneud â nhw a sut rydyn ni'n cydweithio i ddatblygu gwaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae wedi dod i'r amlwg bod gweithgarwch corfforol a nofio yn arbennig yn arwain at nifer o fuddion i bobl sydd â dementia. Gweithiodd BAVO, y Gymdeithas Alzheimer's a Halo Leisure mewn partneriaeth i drefnu dosbarthiadau nofio cyfeillgar i ddementia wythnosol yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnig cyfleoedd sy'n gyfeillgar i ddementia fel hwn yn lleihau unigedd ac unigrwydd ac yn rhoi cymorth i ofalwyr.

Mae BAVO yn bartner i **'Grŵp Llywio Cwympiadau Pen-y-bont ar Ogwr'**, grŵp amlddisgyblaethol sy'n datblygu gwybodaeth pobl am atal cwympiadau er mwyn lleihau nifer y cwympiadau ymysg pobl hŷn a'u galluogi i gadw'n ddiogel ac aros yn annibynnol yn eu cartrefi. Roedd digwyddiad 'Cwympiadau - Busnes i Bawb' yn lleoliad delfrydol ar gyfer rhannu gwybodaeth, fe wnaeth sefydlu perthynas sefydledig rhwng y sector a'r bwrdd iechyd a llwyddodd i feithrin cysylltiadau a pherthnasoedd gweithio gyda sefydliadau partner.

Mae Fforymau Gwerth Cymdeithasol yn ofyniad o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a defnyddiodd Llywodraeth Cymru hwn i gyflwyno dyletswydd i hyrwyddo datblygiad sefydliadau gwerth cymdeithasol.

Mae'r rhain yn sefydliadau sy'n cyflawni gwerth cymdeithasol fel craidd i'w hethos a'u diwylliant, gan weithio'n rhagweithiol mewn ffordd sy'n rhoi llais a rheolaeth ac yn gwella lles dinasyddion.

Lansiodd BAVO y **Fforwm Gwerth Cymdeithasol** ar gyfer Bae'r Gorllewin a fu'n fodd i ddwyn y gymuned, partneriaid o'r sector statudol a sefydliadau cymunedol ynghyd i rannu gwybodaeth a chyd-gynhyrchu ffyrdd o weithio sy'n wirioneddol ymatebol i anghenion dinasyddion lleol a phobl mewn angen.

Roedd unigrwydd ac unigedd cymdeithasol yn themâu a nodwyd yn ystod y trafodaethau bwrdd crwn cychwynnol yn y digwyddiad lansio. Cafodd yr ail ddigwyddiad ei lunio ar y cyd â phartneriaid a buddiolwyr a ffurfiwyd grŵp llywio i sicrhau bod y rhaglen a chyfeiriad y fforwm yn cael eu cynhyrchu ar y cyd. Mynychodd cyfanswm o **128** o bobl y ddau fforwm.



## Iechyd meddwl

Yn ystod blwyddyn arbennig o heriol gyda newidiadau i ffiniau byrddau iechyd, fe wnaethom sicrhau bod y risgiau i ddarparwyr trydydd sector yn cael eu cyflwyno mewn amrywiaeth o bartneriaethau aml-asiantaeth.

Roedd ein Swyddog Datblygu Iechyd Meddwl yn cynrychioli llais darparwyr mewn **17 o grwpiau partneriaeth a chynllunio**. Drwy wneud hynny, fe wnaethom sicrhau rhagor o gyfleoedd a buddsoddiad i sefydliadau'r trydydd sector a dosbarthu gwybodaeth i sefydliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a lles, gan arwain at ystod ehangach o gynrychiolaeth, cyfranogiad ac ymgysylltiad.

Hwylusodd BAVO y rhwydwaith Iechyd Meddwl Alcohol Cyffuriau'r Trydydd Sector (DAMHSN) drwy flwyddyn drosiannol. Fe wnaethon fanteisio ar y cyfle i adolygu rhwydweithiau a fforymau law yn llaw â newidiadau arfaethedig i ffiniau'r byrddau iechyd. Yn ystod y cyfnod hwn, archwiliwyd ystod o feysydd pwnc megis materion defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, bylchau mewn darpariaeth, cynllunio a chomisiynu.

Fel rhan o gamau hyrwyddo iechyd a lles emosiynol ehangach, fe wnaethom ganiatáu i grwpiau gymryd ein swyddfa ym Mhen-y-bont ar Ogwr drosodd fel y gallent gael lle canolog i ddathlu a chodi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd cenedlaethol. Roedd dros 100 o bobl yn bresennol, ac fe wnaethom helpu grwpiau lleol i roi gwell gwybodaeth i bobl yn y gymuned am ddementia a phobl hŷn ac iechyd meddwl cyffredinol.

Fe wnaethom gefnogi Is-adran Gofal Sylfaenol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gyda'r adolygiad o wasanaethau cwnsela a gomisiynwyd ar draws y clystyrau meddygon teulu yn ogystal â datblygu strategaeth ymgysylltu i gleifion.

Fe wnaethom gynorthwyo'r adolygiad o wasanaethau cwnsela ar gyfer Clwstwr Meddygon Teulu Pen-y-bont ar Ogwr (Pen-y-bont ar Ogwr a Phen-coed) a darparu adroddiad ystyriol i'r Rhwydwaith a arweiniodd at gyflwyno proses dendro newydd ar gyfer ceisiadau'r trydydd sector. Arweiniodd hyn at ddarparwr trydydd sector newydd yn darparu gwasanaethau cwnsela, gyda meddygon teulu eraill yn dilyn eu hesiampl ac yn adolygu eu darpariaeth, gan arwain at fwy o gyfle i'r sector a darpariaeth well i gleifion.

Fel rhan o bartneriaeth o grwpiau cymunedol, busnesau, Cynghorwyr, awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, meddygfeydd, Iechyd Cyhoeddus, Cyfoeth Naturiol Cymru, Heddlu De Cymru, Landlordiaid Cymdeithasol a thrigolion, bu BAVO yn gweithio gyda'r gymuned leol i hyrwyddo a gwella iechyd a lles pobl leol trwy brosiect Cwm Llynfi 20 (LV20).

Fe wnaethom hyrwyddo'r defnydd o'r amgylchedd ffisegol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol er mwyn gwella iechyd emosiynol a meddyliol pobl. Fel rhan o Brosiect Cwm Llynfi 20, bu BAVO yn gweithio gyda Rhedeg Cymru, Halo, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a gwirfoddolwyr lleol i lansio parkrun Maesteg ei hun. Mae **2,833 o redwyr** a **944 o wirfoddolwyr** wedi cymryd rhan yn y flwyddyn ddiwethaf, ac mae hyn wedi arwain at wella eu hiechyd a'u lles. Fe wnaeth LV20 hefyd noddi'r Ras Hwyl Santa flynyddol ar gyfer Maesteg.



## Cymdeithion Cymunedol

Gweithiodd BAVO mewn partneriaeth â CVS Castell-nedd Port Talbot i gael arian gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i barhau i gynnig gwasanaeth hyblyg o ansawdd uchel i ddarparu gwasanaeth di-dâl, yn gyfrinachol a di-ragfarn yn recriwtio gwirfoddolwyr i bobl sydd angen cyfeillion.



### Beth wnaethon ni ei gyflawni...?

Cafodd **69** o unigolion newydd gymorth cyfeillio.

Recriwtiwyd **41** o gyfeillion gwirfoddol newydd.

Gwerth ychwanegol o **6,565** awr o amser gwirfoddolwyr ar draws y prosiect.

Darparu gwerth **£53,898.65** o oriau gofal gwirfoddolwyr ar y prosiect.

Cymdeithion Cymunedol
Cyfeillio i rai dros 50

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

### Beth oedd ein heffaith?

### Stori Louise...

"Fe wnes i ymddeol o nyrsio oherwydd salwch ychydig flynyddoedd yn ôl ac i fod yn onest roeddwn i'n colli gallu helpu pobl.

"A minnau'n sâl dros y blynyddoedd diwethaf, treuliais gymaint o amser gartref ar fy mhen fy hun yn methu â mynd allan. Gallaf gydymdeimlo ag eraill mewn sefyllfaoedd tebyg, gall fod mor unig. Fe es i drwy hyfforddiant i ddod yn gyfaill a dydw i ddim wedi edrych yn ôl.

"Dwi'n ymweld â dwy ddynes bob wythnos ac rydyn ni'n siarad dros baned o de. Mae'n swnio mor sylfaenol ond dyna beth sydd ar goll o'u bywydau. Rwy'n gwrando ar eu pryderon ac yn eu cefnogi mewn unrhyw ffordd y gallaf. Os oes ganddyn nhw broblem na allaf fi ei datrys rwy'n eu rhoi mewn cysylltiad â gwasanaethau eraill sy'n gallu. Rwy'n gobeithio bod fy ymweliadau yn hwyluso eu hunigrwydd a'u bod nhw'n teimlo'n llai ynysig gan mai dyna sut maen nhw'n gwneud i fi deimlo.

"Ers gwirfoddoli, rwyf wedi dechrau grŵp cyfeillio bob dydd Llun yn Eglwys Dyffryn. Y nod yw helpu'r rhai sydd ar y rhestr aros i gyfeillio nad oes ganddynt wirfoddolwr i'w cefnogi eto, ond gall unrhyw un yn fy nghymuned sy'n unig ac eisiau sgwrs ddod draw.

"Rhai wythnosau rwy'n trefnu siaradwyr gwadd fel y Gwasanaeth Tân a ddaeth i'n cynghori ynglŷn â chadw ein hunain yn ddiogel yn ein cartrefi. Mae gŵr o MIND wedi mynychu a darparu sesiynau lles. Wythnosau eraill byddwn yn hel atgofion am yr amseroedd sydd wedi mynd heibio ac yn edrych ar hen ffotograffau o'r dref drwy'r blynyddoedd neu'n yfed te ac yn dal i fyny.

"Mae'n grŵp mor wych. Rydyn ni i gyd yn cefnogi ein gilydd ac mae'n hyfryd gweld cyfeillgarwch pobl yn ffynnu. Mae llawer o'r mynychwyr o oedran tebyg ac mae ganddynt bethau yn gyffredin felly maen nhw'n deall anawsterau ei gilydd a gallant sgwrsio drwy unrhyw bryderon gyda'i gilydd heb farnu. Mae pawb yn tynnu ymlaen mor dda maen nhw wedi cyfnewid rhifau ffôn hyd yn oed i gysylltu â'i gilydd rhwng y sesiynau grŵp sy'n wych!

"Rydw i wrth fy modd yn gwirfoddoli fel cyfaill. Mae wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol enfawr i'm bywyd. Oherwydd salwch sy'n cyfyngu ar fy mywyd, roeddwn yn ynysig iawn ac mae gwirfoddoli gyda Cymdeithion Cymunedol wedi fy ngalluogi i fynd allan o'm pedair wal a helpu i leihau fy unigrwydd fy hun. Mae cyfeillio yn rhoi pwrpas i mi ac yn gwneud i mi deimlo'n hapus; mae wedi gwella ansawdd fy mywyd. Mae wedi rhoi cyfeillgarwch newydd i mi ac rwy'n teimlo'n freintiedig iawn bod pobl yn fy ngadael i mewn i'w bywydau ac yn gadael i mi fod yn rhan ohono."

# Pontio'r bwlch: prosiectau partneriaeth

## Prosiect Lincio Lan: 'Atgyfnerthu sgiliau'r 3ydd sector'

Fe wnaethom lansio ein prosiect tair blynedd, Lincio Lan, mewn partneriaeth â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, er mwyn atgyfnerthu'r gwaith o lywodraethu'r trydydd sector a datblygu sgiliau.

Wedi'i ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, nod y prosiect yw dod â sgiliau ac arbenigedd newydd i sefydliadau yn y trydydd sector drwy recriwtio a pharu mentoriaid cymheiriaid medrus o'r sectorau cyhoeddus, preifat ac annibynnol gyda sefydliadau'r trydydd sector.

Mae ein haelodau eisoes yn elwa ar ein Prosiect Lincio Lan ac yn cydnabod y gwerth mae'n ei roi i gynaliadwyedd a llywodraethu da o fewn eu sefydliadau. Maen nhw'n teimlo'n fwy galluog a grymus i gynllunio ar gyfer y dyfodol a goresgyn amgylcheddau economaidd anodd.

### Beth wnaethon ni ei gyflawni…?

Recriwtio **6** mentor a **3** ymddiriedolwr newydd.

Cyflwyno **22** o sesiynau ymsefydlu gyda'r holl gyfranogwyr gan nodi mwy o wybodaeth am lywodraethu'r trydydd sector.

**14** o sefydliadau lleol yn cofrestru ar gyfer y Prosiect Lincio Lan.

**2** gweithdy 'Rolau a Chyfrifoldebau Aelod Pwyllgor, Ymddiriedolwyr Cyfreithiol' wedi'u cyflwyno i 15 o ymddiriedolwyr.

**28** o aelodau wedi mynychu cynhadledd prosiect rhanbarthol yn canolbwyntio ar amrywiaeth ac atgyfnerthu llywodraethu yng Nghastell-nedd Port Talbot.

### Beth oedd ein heffaith?

## Stori Clwb a Chanolfan Gymunedol Merched a Bechgyn Nantymoel…

Roedd adeilad cyngor lleol cymunedol cyfagos yn cael ei ddymchwel ac roedd angen parhau i ddarparu rhai o'r gweithgareddau oedd yn cael eu darparu yno'n flaenorol ar gyfer aelodau'r gymuned. O ganlyniad, cafodd Clwb a Chanolfan Gymunedol Merched a Bechgyn Nantymoel ei sefydlu'n ffurfiol ym mis Ebrill 2018 fel datblygiad pellach o Glwb Merched a Bechgyn Nantymoel. Roedd angen iddynt feithrin gallu eu Bwrdd Ymddiriedolwyr ac roedd yn anodd i'r grŵp nodi lle i ddechrau gyda recriwtio ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr i redeg y ganolfan newydd.

Roedd ein Swyddog Prosiect Lincio Lan gefnogi datblygiad sgiliau'r Ymddiriedolwyr presennol a threfnu hyfforddiant gloywi i Ymddiriedolwyr. Fe wnaethant hefyd drefnu hyfforddiant gyda'r Uned Hawliau Plant i bobl ifanc oedd â diddordeb mewn dod yn ymddiriedolwyr a recriwtio mentor gyda phrofiad ariannol i'w helpu i ddiweddaru eu systemau cyllid a chyllidebu o waith papur i systemau electronig.

Drwy gymorth y Prosiect Lincio Lan, recriwtiwyd dau Ymddiriedolwr newydd a chwblhaodd dau o bobl ifanc gwrs hyfforddi Ymddiriedolwyr ifanc achrededig. Mae'r holl Ymddiriedolwyr presennol a newydd wedi meithrin gwybodaeth drwy gwblhau cyfnod ymsefydlu mewn llywodraethu ac maen nhw'n fwy ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.



Fe wnaethom godi proffil ein sefydliad ein hunain a phroffil y trydydd sector ehangach drwy ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol, e-friffiau, cylchlythyrau a datganiadau i'r wasg. Pwysleisiwyd y gwahaniaeth mae'r trydydd sector yn ei wneud i wella cymunedau a'r effaith gadarnhaol mae'r sector yn ei chael ar fywydau pobl.

Fe wnaethom hefyd ddefnyddio cymaint o gyfarfodydd partneriaeth, cyfryngau ac adnoddau â phosibl i gyfleu'r negeseuon hyn a chael cydnabyddiaeth haeddiannol am yr holl waith mae'r sector yn ei wneud. Mae ein datganiadau i'r wasg wythnosol yn codi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o wasanaethau cymorth, gweithgareddau a chyfleoedd sy'n cael eu darparu yn y fwrdeistref sirol. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr ein cefnogaeth barhaus gan y wasg a'r cyfryngau lleol.

## Beth wnaethon ni ei gyflawni...?


Ymddangosodd **231** o erthyglau BAVO yn y wasg leol, ar y radio ac ar wefannau annibynnol.


**20,195** o sesiynau ymwelwyr i www.bavo.org.uk

**22,778** o ymgysylltiadau yn deillio o'r cyfryngau cymdeithasol.

I ddangos y gwerth, yr effaith a'r gwahaniaeth mae ein gwaith yn ei gael ar unigolion, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus, fe wnaethom hyrwyddo astudiaethau achos, straeon digidol, arolygon, tystebau ac astudiaethau gwerthuso annibynnol.

Mae gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau trydydd sector lleol bellach yn cael ei rhannu trwy gymorth cronfa ddata unigryw Cefnogi Trydydd Sector Cymru, **infoengine.cymru**. Gall pobl gofrestru manylion eu sefydliad yn uniongyrchol ar y gronfa ddata fel ei fod yn cael ei gadw'n fyw ac yn gyfredol. Drwy ein holl sianeli marchnata, rydym yn gweithio'n barhaus i godi proffil infoengine, wrth i'r bartneriaeth newydd hon sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hawdd i'r cyhoedd ac i'r rheini sy'n cynnig cyngor a chymorth ledled Cymru.






# Datganiad yr archwilwyr annibynnol i Ymddiriedolwyr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol cryno Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.

## Priod gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r archwilwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol cryno yn unol ag argymhellion y SORP elusennau.

Ein cyfrifoldeb ni yw rhoi gwybod i chi beth yw ein barn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno gyda'r datganiadau ariannol llawn ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Rydym hefyd yn darllen y wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol cryno ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os byddwn yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol cryno.

## Sail y farn

Roedd ein harchwiliad yn cynnwys cytuno ar y balansau a ddatgelwyd yn y datganiadau ariannol cryno i'r datganiadau ariannol blynyddol llawn. Mae ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol blynyddol llawn yr elusen yn disgrifio sail ein barn ar y datganiadau ariannol hynny ac ar adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

## Barn

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn ac Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwyr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.

**Bevan Buckland LLP**
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Langdon House, Langdon Road,
Abertawe
SA1 8QY

Dyddiad: 12 Medi 2019

# Datganiad gan yr Ymddiriedolwyr


Nid yw'r datganiadau ariannol cryno hyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 yn gyfrifon statudol llawn y gymdeithas, ond maen nhw'n cynnwys crynodeb o wybodaeth a dynnwyd o'r cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â'r datganiad o weithgareddau ariannol [SOFFA] a'r fantolen.

Mae'n bosibl na fydd y datganiadau ariannol cryno hyn yn cynnwys digon o wybodaeth i ganiatáu dealltwriaeth lawn o faterion ariannol yr elusen. I gael rhagor o wybodaeth, dylid ymgynghori â'r datganiadau ariannol llawn ac adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr; gellir cael copïau o'r rhain ar gais i BAVO.


Rhaid i'r datganiadau ariannol llawn fod yn destun archwiliad allanol gan archwilydd annibynnol a rhaid derbyn adroddiad diamod.

Cymeradwywyd yr adroddiad llawn a'r datganiadau ariannol gan yr Ymddiriedolwyr ar 12 Medi 2019 ac maen nhw wedi cael eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau ac i Gofrestrydd y Cwmnïau.

## Crynodeb o'r incwm




## Crynodeb o'r gwariant



# Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont (BAVO)

## Mantolen
## Ar 31 Mawrth 2019

| | 2019 £ | 2019 £ | 2018 £ | 2018 £ |
|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | | **229,632** | | **237,920** |
| | | | | |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | |
| Dyledwyr | 8,200 | | 92,027 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 1,417,844 | | 1,345,634 | |
| | **1,426,044** | | **1,437.661** | |
| | | | | |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | | |
| Credydwyr yn daladwy ymhen un flwyddyn | **87,162** | | **77,932** | |
| | | | | |
| **ASEDAU NET CYFREDOL** | | **1,338,882** | | **1,359,729** |
| | | | | |
| **CYFANSWM ASEDAU NET** | | **1,568,514** | | **1,597,649** |
| | | | | |
| | | | | |
| **CRONFEYDD** | | | | |
| Cyfyngedig: cronfeydd incwm | | **281,419** | | **317,517** |
| Anghyfyngedig: cronfeydd incwm | | | | |
| Cronfeydd dynodedig – refeniw | 617,000 | | 617,000 | |
| Cronfeydd elusennol cyffredinol | 440,463 | | 425,212 | |
| | | **1,057,463** | | **1,042,212** |
| Anghyfyngedig: cronfeydd cyfalaf | | | | |
| Cronfeydd asedau sefydlog dynodedig | | **229,632** | | **237,920** |
| | | | | |
| **CYFANSWM CRONFEYDD YR ELUSEN** | | **1,568,514** | | **1,597,649** |

# Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont (BAVO)

## Datganiad o weithgareddau ariannol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

| | Cronfeydd anghyfyngedig | | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm Cronfeydd | Cyfanswm Cronfeydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cronfeydd Cyffredinol £ | Cronfeydd Dynodedig £ | 2019 £ | 2019 £ | 2018 £ |
| **Incwm a chronfeydd gwaddol o:** | | | | | |
| Weithgareddau masnachu eraill | 47,057 | - | - | 47,057 | 126,481 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 1,873 | - | - | 1,873 | 1,684 |
| Incwm o weithgareddau elusennol | 213,530 | - | 241,187 | 454,717 | 584,634 |
| **Cyfanswm yr incwm** | **262,460** | **-** | **241,187** | **503,647** | **712,799** |
| | | | | | |
| **Gwariant:** | | | | | |
| Gwariant ar godi arian | 2,592 | - | - | 2,592 | 2,687 |
| Gwariant ar weithgareddau elusennol | 211,866 | - | 292,333 | 504,199 | 592,913 |
| Gwariant ar weithgareddau masnachu eraill | 25,992 | - | - | 25,992 | 86,426 |
| **Cyfanswm y gwariant** | **240,450** | **-** | **292,333** | **532,783** | **682,026** |
| | | | | | |
| **Incwm/(gwariant) net cyn trosglwyddiadau** | **22,010** | **-** | **(51,146)** | **(29,136)** | **30,773** |
| | | | | | |
| **Trosglwyddiadau** | | | | | |
| Trosglwyddiadau i gronfeydd cyfyngedig | (18,883) | - | 18,883 | - | - |
| Trosglwyddiadau o gronfeydd cyfyngedig | 3,835 | - | (3,835) | - | - |
| Trosglwyddiadau i gronfeydd dynodedig | (90,569) | 90,569 | - | - | - |
| Trosglwyddiadau o gronfeydd dynodedig | 98,857 | (98,857) | - | - | - |
| **Incwm/(gwariant) net ar gyfer y flwyddyn** | **15,250** | **(8,288)** | **(36,098)** | **(29,136)** | **30,773** |
| **Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen** | **425,213** | **854,920** | **317,517** | **1,597,650** | **1,566,876** |
| **Cyfanswm y cronfeydd i'w dwyn ymlaen i'r cyfnod nesaf** | **440,463** | **846,632** | **281,419** | **1,568,514** | **1,597,649** |

Bridgend Association of Voluntary Organisations

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont



**Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont**
112 – 113 Heol y Fasnach, Maesteg, CF34 9DL
Ff: 01656 810400 • E: bavo@bavo.org.uk

Rhif cwmni: 07691764 • Rhif cofrestru'r elusen: 1146543

Tachwedd 2019 • © BAVO

**www.bavo.org.uk**

disability confident

NOD ANSAWDD PQASSO QUALITY MARK lefel | level 1

SERVICES FOR CHARITIES — CHARITY COMMISSION ENDORSED — PQASSO Quality Mark 2014 — Quality Assessment System

INVESTING IN VOLUNTEERS — BUDDSODDI MEWN GWIRFODDOLWYR

Living Wage Employer

**Hoffai BAVO ddiolch yn arbennig i'n holl gynrychiolwyr yn y trydydd sector sy'n rhoi o'u hamser am ddim i fynd i gyfarfodydd strategol er mwyn sicrhau y clywir llais y trydydd sector.**

**Hoffem ni hefyd ddiolch i'n haelodau am eu cefnogaeth, anogaeth ac ymgysylltiad parhaus mewn cyfnod hynod heriol; ac am bob dim maen nhw'n ei wneud yn eu cymunedau.**

**Hoffem hefyd ddiolch i'n cyllidwyr:**

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Caring Together Western Bay — Health and Social Care Programme — Gofalu Gyda'n Gilydd Bae'r Gorllewin — Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol

GIG CYMRU NHS WALES — Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg University Health Board

WCVA CGGC

Cefnogi Trydydd Sector Cymru — Third Sector Support Wales

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr — Bridgend County Borough Council